Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

11 Chwefror 2021

Annwyl Lesley,

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesur Dros Dro) (Covid-19) (Diwygio) 2021
Rheoliadau (Diwygio) Organig 2021

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 25 Ionawr 2021 a 5 Chwefror 2021.

Nodwn eich bod wedi cydsynio i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn sy'n ymdrin â materion sydd o fewn meysydd datganoledig ond nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag Ymadael â'r UE. Ar gyfer rheoliadau o'r fath, byddai'n ddefnyddiol i ni pe gallech nodi'r meini prawf a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth benderfynu pryd y bydd yn:

(i) rhoi cydsyniad i Weinidogion y DU yn hytrach na deddfu ei hun;
(ii) rhoi gwybod i ni am ei phenderfyniad.

O gofio ein bod yn prysur agosáu at ddiddymiad y Pumed Senedd cyn Etholiad y Senedd yn 2021, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Mawrth 2021 fel y gallwn ei ystyried yng nghyd-destun ein gwaith gwaddol.

Byddem hefyd yn argymell y dylid, yn y dyfodol, roi gwybod am benderfyniadau cydsyniad o'r fath i bwyllgor pwnc perthnasol y Senedd.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English